

ATODLEN 18

RHYDDHAD ELUSENNAU

Tynnu rhyddhad rhannol yn ôl

- 7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—
- trafodiad tir wedi ei ryddhau rhag treth o dan baragraff 6 (“y trafodiad a ryddheir”),
 - digwyddiad datgymhwyso mewn perthynas ag elusen (“E”) a oedd y prynwr yn y trafodiad a ryddheir, a
 - y digwyddiad datgymhwyso o dan yr amgylchiadau sy'n ofynnol gan is-baragraffau (3) a (4).
- (2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, caiff rhan E o'r rhyddhad, neu gyfran briodol o ran E o'r rhyddhad hwnnw, ei thynnu'n ôl ac mae treth i'w chodi yn unol â'r paragraff hwn (gweler is-baragraff (5)).
- (3) Rhaid i'r digwyddiad datgymhwyso fod—
- cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad a ryddheir yn cael effaith, neu
 - yn unol â threfniadau a wneir cyn diwedd y cyfnod hwnnw, neu mewn cysylltiad â hwy.
- (4) Ar adeg y digwyddiad datgymhwyso, rhaid i E ddal buddiant trethadwy—
- a gaffaelwyd gan E o dan y trafodiad a ryddheir, neu
 - sy'n deillio o fuddiant a gaffaelwyd felly.
- (5) Mae'r swm trethadwy yn gyfwerth â rhan E o'r rhyddhad neu, yn ôl y digwydd, y gyfran briodol o ran E o'r rhyddhad.
- (6) Mae rhan E o'r rhyddhad yn dibynnu ar ba un ai C1 neu C2 oedd isaf yn y cyfrifiad o dan baragraff 6.
- (7) Os C1 oedd isaf, mae rhan E o'r rhyddhad yn gyfwerth â—

$$\frac{c1}{C1} \times Rh$$

Ffigwr 14

pan fo—

c1 y gyfran o destun y trafodiad a gaffaelwyd gan E o dan y trafodiad;
C1 â'r un ystyr ag ym mharagraff 6(4);
Rh yn swm y rhyddhad.

- (8) Os C2 oedd isaf, mae rhan E o'r rhyddhad yn gyfwerth â—

$$\frac{c2}{C2} \times Rh$$

Ffigwr 15

pan fo—

c2 y gyfran o'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad a roddwyd gan E;

C2 â'r un ystyr ag ym mharagraff 6(4);

Rh yn swm y rhyddhad.

- (9) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyfran briodol" yw cyfran briodol gan roi sylw i—
- (a) yr hyn a gaffaelwyd gan E o dan y trafodiad a ryddheir a'r hyn a ddelir gan E ar adeg y digwyddiad datgymhwyso, a
 - (b) i ba raddau y mae'r hyn a ddelir gan E ar yr adeg honno yn cael neu'n dod i gael ei ddefnyddio neu ei ddal at ddibenion ac eithrio dibenion elusennol cymwys.